Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dewi Sant
# Tyddewi
# Hwlffordd
# Sir Benfro
# SA62 6QH

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11-18 oed yw Ysgol Dewi Sant, sydd wedi'i lleoli yn ninas Tyddewi, ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Benfro. Mae 489 o ddisgyblion ar y gofrestr, y mae 78 ohonynt yn y chweched dosbarth.

Daw disgyblion o ystod o gefndiroedd economaidd. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae deg y cant o'r disgyblion wedi eu cofrestru yn ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru (17.4%). Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Saesneg yw mamiaith yr aelwyd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Mae'r disgyblion sy'n cael eu derbyn yn yr ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn, ond gan mai nifer fach o ddisgyblion sydd ym mhob grŵp blwyddyn, mae amrywiad amlwg flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gan un pwynt pump y cant o boblogaeth yr ysgol ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae 28% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion ychwanegol yr ysgol. Mae hon yn gyfran uwch o ddisgyblion na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, bu newidiadau sylweddol yn arweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn ymgymryd â'u rolau dros dro ar hyn o bryd. Y rheolwr busnes dros dro yw'r trydydd aelod o'r tîm arweinyddiaeth dros dro.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dewi Sant yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,242 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Benfro yw £5,059 a'r isafswm yw £4,113. Mae Ysgol Dewi Sant yn bumed o'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Benfro o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys y canlynol:

- tuedd o welliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4;
- perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012 sy'n cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg;
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol;
- ethos cynnes a chroesawgar; a
- chwricwlwm sy'n cynnig ystod addas o gyrsiau i fodloni anghenion disgyblion yn well.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol ar y cyfan, oherwydd:

- mewn lleiafrif o wersi yn unig y mae disgyblion yn gwneud cynnydd da neu well;
- nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal â'r disgwyl, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael y graddau uchaf mewn TGAU yn y rhan fwyaf o bynciau;
- megis dechrau datblygu y mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau ar draws y cwricwlwm; ac
- mae tua hanner o'r addysgu yn cynnwys gwendidau.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod y rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod arweinyddiaeth gyffredinol yn anfoddhaol ac nid yw uwch arweinwyr yn cael digon o amser i gyflawni eu dyletswyddau'n iawn;
- bu newid ac ansicrwydd sylweddol yn arweinyddiaeth yr ysgol dros y 12 mis diwethaf;
- bod y pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn ymgymryd â'u rolau dros dro;
- bod uwch arweinwyr wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, er na fu digon o ffocws ar wella ansawdd yr addysgu a chryfhau arweinyddiaeth ganol;
- megis dechrau y mae rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol;
- nid yw'r defnydd o ddata gan arweinwyr canol wedi'i ddatblygu digon; ac
- ni chaiff gweithgareddau datblygiad proffesiynol eu cydlynu'n ddigon da i effeithio'n ddigonol ar ansawdd yr addysgu.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd yr addysgu i alluogi disgyblion ar draws yr ystod gallu i wneud cynnydd da neu well yn ystod gwersi

A2 Gwella perfformiad disgyblion mwy abl

A3 Gwella cydlynu a chynllunio ar gyfer dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Cryfhau'r trefniadau olrhain a defnyddio gwybodaeth yn well i nodi a monitro unigolion a grwpiau y mae angen mwy o gymorth arnynt

A5 Cryfhau trefniadau diogelu

A6 Gwella ansawdd cynlluniau addysg unigol ar draws y cwricwlwm a'r defnydd a wneir ohonynt

A7 Adolygu rolau a chyfrifoldebau arweinwyr canol ac uwch arweinwyr

A8 Datblygu rôl arweinwyr fel eu bod yn gwbl atebol am eu meysydd cyfrifoldeb

A9 Gwella trylwyredd gweithgareddau hunanarfarnu a'r defnydd a wneir ohonynt i lywio cynllunio gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwella'r ysgol hon yn sylweddol. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn amrywiol, ond bu gwelliant cyson ym mwyafrif y dangosyddion er 2009. Yn 2012, bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad, yn enwedig mewn dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg mamiaith a mathemateg, ac mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau. Er gwaethaf y gwelliant hwn mewn dangosyddion perfformiad allweddol, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni eu llawn botensial, ac yn y rhan fwyaf o bynciau, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf mewn TGAU. Yn y mwyafrif o wersi, nid yw disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud digon o gynnydd.

Yn 2012, bu gwelliant o ddeg pwynt canran mewn perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, ac roedd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y tro cyntaf. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2012, bu cynnydd sylweddol yng nghyfran y disgyblion a gyflawnodd drothwy lefel 2. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd, wedi cynyddu'n gyson er 2009 ac, er 2011, mae perfformiad wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Am y tro cyntaf yn 2012, roedd perfformiad yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae patrwm tebyg ym mhob un o'r pynciau craidd, er bod perfformiad yn golygu nawr bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 5 neu'n uwch yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg, er nad yw perfformiad mor gryf ar lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch.

Yng nghyfnod allweddol 3, ar draws ystod o ddangosyddion, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn fwy na'r bwlch mewn ysgolion tebyg. At ei gilydd, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched, yn enwedig yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid yw'r tanberfformio ymhlith bechgyn yn fater arwyddocaol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni yn unol â'u gallu ar y cyfan.

Mae perfformiad myfyrwyr chweched dosbarth wedi bod yn amrywiol. Yn 2012, roedd canran y myfyrwyr a gyflawnodd drothwy lefel 3 yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Er bod y sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog wedi gostwng ers cyrraedd ei uchafbwynt yn 2010, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

Dros y pedair blynedd diwethaf, nid oes unrhyw ddisgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig. Ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn. Mae'r ffigurau hyn yn well na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da, gan ddatblygu ystod eang o fedrau a chysylltu testunau a gwybodaeth newydd â dysgu blaenorol yn dda. Yn y mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau'r athro neu ar gyfraniadau gan eu cyfoedion at drafodaethau dosbarth. Fodd bynnag, pan nad yw gweithgareddau'n ddifyr, tynnir sylw lleiafrif o ddisgyblion oddi wrth eu gwaith, ac nid ydynt yn gweithio'n ddiwyd. Mae mwyafrif y disgyblion yn frwdfrydig ac yn fodlon cyfrannu at drafodaethau dosbarth. Gwnânt ddefnydd da o derminoleg sy'n benodol i bwnc, ac mae ganddynt eirfa eang. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud defnydd soffistigedig o eirfa eang ac amrywiol, a gallant roi atebion llafar mwy estynedig.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ddarllenwyr hyderus a chywir. Maent yn ynganu'n dda ac yn llunio casgliadau rhwng testunau. Maent yn darllen ystod o wybodaeth a ffynonellau, yn crynhoi neu'n didoli gwybodaeth yn dda ac yn llunio casgliadau dilys.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o ansawdd uchel. Maent yn deall diben y dasg ysgrifennu a'u cynulleidfa darged ac mae eu harddull ysgrifennu yn goeth a threfnus. Maent yn ailddrafftio gwaith a gallant brawfddarllen eu gwaith i ddiwygio camgymeriadau sillafu neu atalnodi. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm, ac o ganlyniad, mae ansawdd ysgrifennu disgyblion yn rhy amrywiol mewn adrannau a rhyngddynt. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o ansawdd boddhaol, er eu bod yn gwneud camgymeriadau sillafu neu atalnodi yn aml ac yn ysgrifennu mewn ystod gyfyng o arddulliau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau bach. Maent yn mynd ati i weithio'n gyflym ac yn dal ati i ganolbwyntio. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn canolbwyntio pan fydd y wers yn symud yn araf.

Mae gwaith ar goll neu'n anghyflawn yn llyfrau lleiafrif o ddisgyblion. Hyd yn oed os caiff hyn ei amlygu gan yr athro, ychydig iawn ohonynt yn unig sy'n mynd yn ôl a diwygio eu gwaith. Mae cyflwyniad lleiafrif o ddisgyblion yn wael, ac nid ydynt yn cymryd digon o falchder yn ansawdd eu gwaith ysgrifenedig.

Mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran uchel o ddisgyblion yn cyflawni deilliannau da iawn mewn Cymraeg ail iaith.

**Lles: Da**

Mae lles yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae llawer ohonynt yn deall pwysigrwydd ffyrdd iach o fyw ac ymarfer corff rheolaidd. Mae cyfraddau cyfranogiad ar draws ystod o weithgareddau, gan

gynnwys Gwobr Dug Caeredin, yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, ac maent yn gwrtais a pharchus at eu cyfoedion, oedolion eraill ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi a chyfnodau cofrestru yn brydlon. Mewn gwersi, mae mwyafrif y disgyblion wedi'u cymell yn dda, yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu, ond os nad yw gweithgareddau'n cynnwys her addas, mae lleiafrif o ddisgyblion yn sgwrsio ac nid ydynt yn gweithio'n ddiwyd.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi dangos gwelliant cyson. Er 2010, mae cyfraddau presenoldeb wedi cymharu'n ffafriol iawn gyda chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg ac wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae data nas gwiriwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn dangos ychydig llai nag un pwynt canran o ostyngiad mewn presenoldeb.

Mae'r cyngor ysgol yn datblygu'n briodol fel fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae aelodau etholedig yn cymryd mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar agweddau ar les. Maent wedi ymgynghori ar ddiwygio polisi ymddygiad yr ysgol yn ddiweddar, ac roeddent yn rhan o greu polisi gwrthfwlio'r ysgol. Mae'r prif fachgen a'r brif ferch yn cynrychioli disgyblion eraill yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol ac mewn llawer o ddigwyddiadau eraill yn yr ysgol. Maent yn llunio adroddiadau rheolaidd a defnyddiol ar gyfer llywodraethwyr hefyd.

Mae disgyblion yn dangos ystod dda o fedrau cymdeithasol ac aeddfedrwydd yn barod ar gyfer bywyd a gwaith yn y dyfodol. Mae disgyblion hŷn yn arbennig yn rhoi cymorth o ansawdd uchel i ddisgyblion iau, ac mae rhai ohonynt yn cymryd rhan weithredol yng 'Nghynllun Cyfeillion' yr ysgol i helpu cefnogi disgyblion gyda datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn eang a chytbwys ac yn bodloni gofynion statudol. Mae'n adeiladu'n briodol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, gall disgyblion ddewis o blith ystod addas o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, a chynigir rhai ohonynt mewn partneriaeth ag ysgolion eraill a choleg addysg bellach. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol buddiol, ac mae nifer dda yn eu mynychu. Mae cynllunio'r cwricwlwm yn addas ar y cyfan, ond nid yw'n cynnwys manylion am themâu pwysig, er enghraifft datblygu medrau.

Mae gan yr ysgol raglen ddatblygol a strwythur newydd ar gyfer cyflwyno llythrennedd. Mae gan yr ysgol ystod ddigonol o strategaethau ymyrraeth a chymorth priodol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae data yn dangos bod disgyblion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ymyrraeth yn gwneud cynnydd digonol erbyn diwedd cyfnod allweddol 3 a chynnydd da yn aml erbyn diwedd cyfnod allweddol 4. Caiff strategaethau llythrennedd eu hintegreiddio mewn rhai cynlluniau

gwaith adrannol, ond nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion mewn llawer o bynciau i gefnogi athrawon wrth gyflwyno llythrennedd yn effeithiol. Nid yw'r strategaethau ar gyfer datblygu medrau rhifedd a meddwl wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae rhai pynciau yn cyfrannu'n gadarnhaol at wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant, hanes ac economi Cymru. Caiff y Cwricwlwm Cymreig ei gynllunio'n briodol ym mhob cynllun gwaith cyfadran. Mae darpariaeth dda ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae gan yr ysgol gynlluniau gwerth chweil ar gyfer datblygu ei hethos Cymreig.

Caiff addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ei hintegreiddio'n briodol mewn rhai meysydd pwnc. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddatblygu addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae nifer gynyddol o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau dinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft cyswllt yr ysgol gyda Lesotho.

### Addysgu: Anfoddhaol

Mae perthynas dda iawn rhwng staff a disgyblion bron ym mhob gwers.

Mewn lleiafrif o wersi, mae nodweddion effeithiol sy'n arwain yn llwyddiannus at gynnydd da mewn dysgu. Yn y gwersi hyn, holir cwestiynu medrus sy'n profi ac yn ymestyn y dysgu. Mae amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn cefnogi datblygiad llythrennedd, ac mae'r athrawon yn rhoi arweiniad defnyddiol i ddisgyblion ar sut i ddatblygu a gwella eu darllen a'u hysgrifennu. Mae cyflymder ac amrywiaeth mewn gweithgareddau yn golygu bod disgyblion yn dal ati i ganolbwyntio, ac mae'n ennyn eu diddordeb. Mae athrawon yn mabwysiadu ystod o strategaethau, grwpiau a pharau sy'n hyrwyddo dysgu yn llwyddiannus. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon hefyd yn darparu lefel uchel o her ar gyfer dysgwyr ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Fodd bynnag, mae'r addysgu mewn tua hanner y gwersi yn cynnwys diffygion. Yn y gwersi hyn, mae'r disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Nid yw'r cynllunio ar gyfer dilyniant yn effeithiol, ac nid oes ffocws ar ddatblygu medrau. Mae'r addysgu'n symud yn rhy araf ac nid yw gweithgareddau yn gwneud i ddisgyblion ddal ati i ganolbwyntio. Nid yw strategaethau addysgu yn bodloni anghenion disgyblion mwy abl a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol gan na roddir digon o ystyriaeth i'w hanghenion unigol.

Mewn rhai achosion, mae'r addysgu yn wan. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae cyfarwyddiadau yn aneglur, a chwestiynau yn gaeedig, ac nid yw'n profi dysgu'r disgyblion yn ddigon da. Nid yw gweithgareddau yn addas i lefelau gallu pob disgybl. O ganlyniad, mae disgyblion wedi ymddieithrio, ac yn gwneud cynnydd cyfyngedig iawn.

Mae marcio yn gyfoes ar y cyfan. Caiff cod cyflwyno a marcio defnyddiol ei arddangos yn nhu blaen y rhan fwyaf o lyfrau. Caiff camgymeriadau mewn sillafu, atalnodi a gramadeg eu cywiro yn y mwyafrif o achosion. Yn y mwyafrif o bynciau, mae marcio asesiadau cyffredin neu graidd yn fanwl, ac mewn lleiafrif o bynciau,

mae'r marcio yn hynod effeithiol wrth nodi sut gall disgyblion wella eu gwaith. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r asesiadau ac yn gwella'u gwaith.

Fodd bynnag, mae anghysondebau wrth gymhwyso'r polisi marcio o fewn pynciau, ac ar eu traws. Ni chaiff camgymeriadau a chyflwyniad gwael eu herio'n gyson gan bob athro. Caiff camgymeriadau sillafu eu cywiro gan amlaf, ond mae'r gweithgarwch dilynol gan y mwyafrif o athrawon yn gyfyngedig iawn pan fydd gwaith yn anghyflawn neu ar goll. Yn y rhan fwyaf o bynciau, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain neu waith disgyblion eraill yn erbyn meini prawf cytûn.

Rhoddwyd system olrhain cynnydd ar waith yn ddiweddar, ac mae penaethiaid cyfadrannau a phenaethiaid ysgol yn cael gwybodaeth bob hanner tymor ynglŷn â sut mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn erbyn targedau. Fodd bynnag, nid yw'r system hon yn arwain at ymyriadau teilwredig, strwythuredig a chynlluniedig i helpu disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion. Yn hytrach, mae gan bob disgybl 'fentor' athro sy'n trafod eu cynnydd gyda nhw a pha gamau y mae angen eu cymryd i wella. Mae'r camau hyn yn aneglur. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r system olrhain a mentora, ond mae'n rhy gynnar i asesu ei heffaith ar godi safonau.

Mae ansawdd adroddiadau i rieni yn amrywio. Mae llawer ohonynt yn rhoi gwybodaeth fanwl ac yn rhoi syniad clir o gryfderau a gwendidau plentyn mewn maes pwnc. Mae'r mwyafrif yn darparu targedau defnyddiol ar gyfer gwella hefyd. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn rhoi targedau annelwig a di-fudd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gofal a chymorth buddiol ac mae'r tîm bugeiliol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae siaradwyr o amrywiaeth o sefydliadau allanol, fel yr heddlu a'r gwasanaeth tân, yn helpu i godi ymwybyddiaeth disgyblion am faterion diogelwch personol. Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol gydag ystod o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion penodol disgyblion unigol.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion yn effeithiol i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gyda lefelau uchel o gyfranogiad, yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at ddatblygiad disgyblion mewn chwaraeon, a'u datblygiad diwylliannol a chymdeithasol.

Caiff disgyblion gyngor defnyddiol am ddewisiadau opsiwn, ac mae'r ysgol yn gwneud addasiadau addas, lle bo modd, i fodloni dewisiadau disgyblion. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn paratoi disgyblion yn briodol ar gyfer bywyd a gwaith y tu hwnt i'r ysgol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4 a'r sector ôl-16, nid yw'r rhaglen yn ddigon eang a chytbwys.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth addas i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys cysylltiadau defnyddiol ag asiantaethau allanol, er enghraifft cymorth gan arbenigwyr iaith a lleferydd. Caiff y defnydd o gynlluniau addysg unigol ei

fonitro'n briodol. Fodd bynnag, mae'r strategaethau i gefnogi cynnydd disgyblion yn y cynlluniau hyn yn rhy annelwig neu'n rhy gymhleth, ac nid yw athrawon yn eu defnyddio'n ddigon da nac yn ddigon rheolaidd mewn gwersi.

Mae trefniadau diogelu yn bodloni gofynion ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen ystyried rhai agweddau ymhellach, a thynnwyd sylw'r ysgol atynt yn ystod wythnos yr arolygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Dewi Sant yn ysgol ofalgar, gynhwysol a chroesawgar lle mae disgyblion a staff yn falch o'r ethos cymunedol cryf. Caiff materion fel bwlio, rhywiaeth, hiliaeth a homoffobia eu harchwilio mewn modd sensitif trwy'r cwricwla addysg bersonol a chymdeithasol ac astudiaethau crefyddol. Caiff disgyblion eu hannog i ddatblygu eu diddordebau ac fe gaiff unigoliaeth ei chroesawu a'i dathlu. Mae gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol rôl lawn a gweithredol ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae adeilad yr ysgol yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion er bod rhai o'r ystafelloedd dosbarth yn fach. Rhoddwyd rhaglen adnewyddu sylweddol ar waith yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar gyfer cyfleusterau addysgu. Mae arddangosiadau o amgylch yr ysgol yn olau a chyfoes, yn gwella dysgu disgyblion ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae tir yr ysgol yn eang ac yn cael ei gynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, bu newid sylweddol yn aelodaeth yr uwch dîm arweinyddiaeth. Ar hyn o bryd, mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn ymgymryd â'u rolau dros dro.

Yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd, mae'r pennaeth dros dro wedi cael cefnogaeth dda gan y dirprwy bennaeth dros dro. Gyda'i gilydd, maent wedi gweithio'n galed i feithrin ymdeimlad gwell o waith tîm ymhlith staff yn ogystal â datblygu hyder disgyblion a rhieni, a chael eu cymorth. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth presennol yn dangos awydd ac ymrwymiad clir i godi safonau yn yr ysgol.

Caiff arweinwyr canol eu gwahodd i ymuno â'r uwch dîm arweinyddiaeth am dymor ar y tro. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil iddynt gael dealltwriaeth well o faterion ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid yw wedi lleihau baich gwaith y pennaeth dros dro a'r dirprwy bennaeth dros dro. Mae ganddynt faich gwaith sylweddol o hyd, heb ddigon o amser i gyflawni eu dyletswyddau yn ddigon da.

Mae'r ysgol wedi rhoi systemau priodol ar waith i reoli perfformiad. Mae targedau unigol yn gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol gyfan a chenedlaethol erbyn hyn. Ers mis Medi, cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd i drafod cynllunio a chynnydd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o feysydd pwysig, mae llinellau atebolrwydd yn aneglur, ac nid yw trefniadau rheolwyr llinell yn drylwyr a chyson o ran dwyn arweinwyr canol i gyfrif.

Ailddiffiniwyd rolau a chyfrifoldebau staff addysgu yn ddiweddar. Mae arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau gyda brwdfrydedd, ac mae gan y mwyafrif ohonynt ddealltwriaeth glir o'u rolau ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn briodol. Maent yn dechrau monitro ac arfarnu darpariaeth yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o arweinwyr canol wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Dros y chwe mis diwethaf, bu newid sylweddol i aelodaeth ac arweinyddiaeth y corff llywodraethol. Fel grŵp, maent yn dod yn fwy gwybodus am yr ysgol erbyn hyn. Mae eu dealltwriaeth o ddata i herio'r ysgol yn datblygu'n briodol. Ers Ionawr 2013, cyflwynwyd strwythur pwyllgorau newydd, ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i lywodraethwyr ddadlau ynghylch, a thrafod ystod ehangach o faterion sy'n effeithio ar Ysgol Dewi Sant. Yn y misoedd diwethaf, mae llywodraethwyr wedi datblygu cysylltiadau defnyddiol gyda chyfadrannau.

Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod addas o strategaethau sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd. Er bod staff yn frwdfrydig ynglŷn â'r newidiadau diweddar, mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar safonau.

### Gwella ansawdd: Digonol

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi disgrifiad trylwyr a defnyddiol o waith yr ysgol. Mae'n nodi cryfderau a meysydd priodol i'w datblygu, gan gynnwys yr angen i wella perfformiad y disgyblion mwyaf abl. Fodd bynnag, ni chaiff cynnydd ei arfarnu'n ddigonol mewn dysgu, datblygu medrau ac ansawdd yr addysgu.

Mae trefniadau hunanarfarnu'r ysgol wedi'u seilio ar ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys dadansoddi data, arsylwadau gwersi, craffu ar waith a holiaduron i ddisgyblion a rhieni. Fodd bynnag, mae gormod o amrywioldeb o ran sut caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i lywio cynllunio ar gyfer gwella.

Mae'r defnydd a wneir o ddata yn gwella. Ar lefel ysgol gyfan, mae wedi golygu y gellir nodi targedau priodol ar gyfer gwella ac mae wedi arwain at duedd o welliant mewn dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Nid yw'r defnydd a wneir o ddata ar lefel pwnc wedi'i ddatblygu cystal. Mewn lleiafrif o feysydd pwnc, mae'r dadansoddiad yn soffistigedig ac yn cael ei ddefnyddio'n dda ar gyfer cynllunio datblygiad.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn arsylwi gwersi ac yn craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd. Er mwyn sicrhau cysondeb, mae arweinwyr yn defnyddio'r un meini prawf ar gyfer y gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, mae anghysondeb o ran pa mor drylwyr yw arfarniadau ac yn y defnydd annigonol cyffredinol a wneir o'r deilliannau i gynllunio gwelliannau mewn addysgu. Nid oes digon o ffocws ar y cynnydd a wna disgyblion mewn dysgu a datblygu medrau.

Mae'r cynlluniau datblygu ysgol a chyfadrannau yn cynnwys targedau priodol yn ymwneud â pherfformiad a blaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cynlluniau gwella cyfadrannau yn llai llwyddiannus o ran nodi targedau penodol sy'n deillio o'u hunanarfarniad eu hunain. Ni phennir costau ar gyfer cynlluniau gwella, ac

nid yw lleiafrif ohonynt yn rhoi gwybodaeth glir am ofynion hyfforddi a chamau arfaethedig.

Mae'r ysgol yn ymgynghori'n rheolaidd gyda rhieni, ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o arolygon i rannu eu safbwyntiau am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i'w safbwyntiau wrth wneud newidiadau a datblygu polisi.

Mae lleiafrif o athrawon yn cymryd rhan mewn ystod o weithgorau yn yr ysgol a thu hwnt. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n briodol ar ystod o faterion fel dwyieithrwydd, llythrennedd, rheoli ymddygiad a mentora. Mae'r grwpiau hyn wedi rhoi cyfleoedd buddiol i staff rannu arfer dda ac arsylwi cymheiriaid. Mae gwaith y grwpiau hyn wedi rhoi arweiniad a strategaethau defnyddiol i athrawon, ond ni fu unrhyw weithgarwch dilynol penodol i wneud yn siŵr bod athrawon yn deall sut i ddefnyddio'r dulliau hyn.

Gall staff ddefnyddio ystod addas o weithgareddau datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio a darpariaeth gweithgareddau datblygiad proffesiynol yn cynnwys digon o ffocws ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella, fel gwella addysgu. Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau effeithiol gydag ysgolion eraill yn ei theulu, gan rannu arfer orau mewn agweddau ar addysgu a dysgu a mynd i'r afael â materion fel tanberfformio ymhlith bechgyn. Mae'n ddyddiau cynnar o ran y gwaith hwn, ac mae'n rhy gynnar i asesu ei effaith.

Bodlonwyd yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf yn llawn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad gwerth chweil at ehangu ystod y dewisiadau i ddisgyblion, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau a lles.

Mae'r ysgol yn bartner gweithgar yn ffederasiwn gogledd Sir Benfro, a gall fanteisio ar gyrsiau ar y cyd â'r canolfannau partneriaeth. Mae'r bartneriaeth hon yn galluogi disgyblion i ddilyn ystod ehangach o gyrsiau, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar y deilliannau yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r cydweithio rhwng yr ysgolion a'r coleg wedi cyfrannu at arferion cydweithio gwerth chweil i fonitro ansawdd y ddarpariaeth.

Mae disgyblion yn elwa ar gysylltiadau defnyddiol gydag ystod o asiantaethau cymorth, sy'n helpu i fodloni eu hanghenion dysgu, ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Mae gan yr ysgol raglen gynlluniedig o weithgareddau ac mae'n rhannu gwybodaeth yn effeithiol gydag ysgolion cynradd partner. Mae hyn yn cefnogi cyfnod pontio disgyblion rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 ac yn cyfrannu'n dda at eu hiechyd a'u lles emosiynol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol gyda rhieni. Mae llawer o rieni yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfleoedd i ymgysylltu â'r ysgol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae tua hanner yr athrawon yn addysgu y tu allan i'w meysydd arbenigedd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3. Cânt gymorth addas gan arweinwyr cyfadrannau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd yn y gwersi hyn. Caiff athrawon eu cefnogi'n dda gan ystod eang o staff cymorth, gan gynnwys cynorthwywyr cymorth yn y dosbarth a chynorthwywyr cymorth gweinyddol.

Mae'r pennaeth dros dro a'r rheolwr busnes yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac fe gaiff penderfyniadau gwariant eu trafod yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oes costau wedi'u pennu'n llawn ar gyfer y cynllun datblygu ysgol a'r gweithgareddau dilynol. Mae'r ysgol wedi ceisio rhesymoli meintiau dosbarth yn y chweched dosbarth, er bod llai na 10 o ddisgyblion ym mwyafrif y dosbarthiadau.

At ei gilydd, oherwydd y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn amrywiol, ond bu gwelliant cyson ym mwyafrif y dangosyddion er 2009. Yn 2012, bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad, yn enwedig mewn dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, ac mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau. Er gwaethaf y gwelliant hwn mewn dangosyddion perfformiad allweddol, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni eu llawn botensial, ac yn y rhan fwyaf o bynciau, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael y graddau uchaf mewn TGAU. Yn y mwyafrif o wersi, nid yw disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud digon o gynnydd.

Yn 2012, bu gwelliant o fwy na deg pwynt canran mewn perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith, ac roedd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y tro cyntaf. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu hefyd, ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2012, bu cynnydd sylweddol yng nghyfran y disgyblion a gyflawnodd drothwy lefel 2. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi dangos gwelliant cyson flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn 2012, roedd perfformiad yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Er 2009, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion hefyd. Er 2010, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac mae wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. Yn 2012, roedd perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y tro cyntaf, ac yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn ystod y tair blynedd flaenorol, roedd perfformiad wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y pynciau craidd yn unigol wedi gwella er 2009. Gwyddoniaeth yw'r cryfaf o'r pynciau craidd, wedi'i dilyn gan Saesneg a mathemateg. Yn 2012, roedd perfformiad ym mhob un o'r tri phwnc craidd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y tro cyntaf. Heblaw yn 2012, mae perfformiad yn y pynciau craidd yn unigol wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd wedi cynyddu'n gyson er 2009 ac, er 2011, mae perfformiad wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Am y tro cyntaf, mae perfformiad wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae patrwm tebyg ym mhob un o'r pynciau craidd, gyda pherfformiad yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg erbyn hyn. Mae perfformiad ar lefel 5 neu'n uwch yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn

ysgolion tebyg, er nad yw perfformiad mor gryf ar lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch.

Yng nghyfnod allweddol 3, ar draws ystod o ddangosyddion, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn fwy na'r bwlch mewn ysgolion tebyg. At ei gilydd, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched, yn enwedig yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid yw tanberfformio ymhlith bechgyn yn fater arwyddocaol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni yn unol â'u gallu ar y cyfan.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol o gyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4.

Mae perfformiad myfyrwyr chweched dosbarth wedi bod yn amrywiol. Yn 2012, roedd canran y myfyrwyr a gyflawnodd drothwy lefel 3 yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Er bod y sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog wedi gostwng ers cyrraedd uchafbwynt yn 2010, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

Dros y pedair blynedd diwethaf, nid oes unrhyw ddisgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig. Ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn. Mae'r ffigurau hyn yn well na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiadur i ddysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 128 o ddisgyblion a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran. Mae ymatebion yn debyg i'r rhai gan ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod rhywun y gallant droi ato i siarad os ydynt yn poeni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Dywed llawer ohonynt fod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datgan bod digonedd o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Dywed bron pob un o'r disgyblion fod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith, a dywed llawer ohonynt fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion fod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill, ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod staff yn eu parchu nhw a'u cefndir a'u bod yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch.

Mae mwyafrif y disgyblion yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith. Mae mwyafrif y disgyblion hefyd yn datgan bod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gwneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu. Dywed mwyafrif y disgyblion y cawsant gyngor da wrth ddewis cyrsiau, ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer coleg neu eu bywyd gwaith.

**Holiadur i rieni**

Llenwyd holiaduron gan bedwar deg chwech o rieni neu ofalwyr, ac at ei gilydd, roedd rhieni yn fodlon â'r ysgol ar y cyfan. Mae ymatebion gan rieni yn debyg i ymatebion rhieni o ysgolion uwchradd eraill.

Dywed pob un o'r rhieni fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Dywed y rhan fwyaf o rieni fod eu plentyn yn gwneud cynnydd da ac y cafodd gymorth i ymgynefino pan ddechreuodd yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r rhieni yn credu bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod yr addysgu'n dda. Mae bron pob un ohonynt yn credu bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach a gwneud

ymarfer corff yn rheolaidd, ac mae bron pob un ohonynt yn credu bod eu plentyn yn cael ei annog i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.  Mae llawer ohonynt yn credu bod ystod dda o weithgareddau.  Mae llawer ohonynt yn cytuno bod gwaith cartref yr ysgol yn adeiladu'n dda ar waith ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.  Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol a bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer y cyfnod dysgu nesaf neu gyflogaeth.  Mae llawer o rieni'n teimlo bod yr ysgol yn eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Catherine Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Sue Halliwell | Arolygydd Tîm |
| Marc Belli | Arolygydd Tîm |
| Julie Price | Arolygydd Lleyg |
| Lee Cummins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Andrew Kennedy | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |